WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rheoli Gwybodaeth – **Cyngor Sir Fynwy**

Blwyddyn Archwilio: 2016-17

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 199A2017-18

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Gwnaed y gwaith hwn gan Paul Cunningham a Dave Wilson. Rheolwyd y rhaglen gan Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli gwybodaeth a allai gefnogi gwelliannau, ond mae angen cryfhau'r rhain cyn y gellir gwireddu eu manteision yn llawn yn llawn

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwelliannau 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli gwybodaeth a allai gefnogi gwelliannau, ond mae angen cryfhau'r rhain cyn y gellir gwireddu eu manteision yn llawn. 6

Mae gan y Cyngor strategaethau, polisïau a gweithdrefnau rheoli gwybodaeth. Fodd bynnag, mae rhai nad ydynt yn gyfoes a'u cynnwys yn ddryslyd. 6

Mae'r Cyngor yn dangos ymrwymiad i reoli gwybodaeth ac mae wedi ailgyfansoddi'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn ddiweddar. Serch hyn, nid yw ei arweinyddiaeth na'i gylch gorchwyl yn cyfateb i'r arferion gorau. 9

Mae asedau gwybodaeth y Cyngor, gan fwyaf, ar gael yn rhwydd ac mewn ffyrdd priodol i'r cyhoedd, aelodau a staff. Serch hyn, mae'r methiant parhaus i fodloni safonau Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus yn berygl mawr i ddiogelwch gwybodaeth ac i weithgarwch busnes fel ei gilydd. 11

# Crynodeb

1. Ym mis Mawrth 2015, cynaliasom asesiad corfforaethol yng Nghyngor Sir Fynwy (y Cyngor). Yn rhan o'n hasesiad corfforaethol, bu inni adolygu'r trefniadau rheoli gwybodaeth mae'r Cyngor wedi eu gweithredu fel modd o'i gefnogi ei hun i wneud penderfyniadau a gwelliannau mewn modd cadarn ac effeithiol. Daethom i'r casgliad yn ein hadolygiad o reolaeth gwybodaeth bryd hynny 'fod gan y Cyngor drefniadau rheoli gwybodaeth digonol ar waith ond ei fod yn cydnabod bod peth gwendidau, ac wedi dechrau mynd i'r afael â nhw'. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

2. Roedd gan y Cyngor drefniadau digonnol ar waith i reoli gwybodaeth yn ddiogel, er y bu achos bychan o esgeulustod yn 2014. Mae trefniadau mewnol yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau ynglŷn â rheoli gwybodaeth, gan gynnwys polisïau cadw a chael gwared ar wybodaeth, grŵp llywodraethu gwybodaeth, rheolwr gwybodaeth a swyddog Diogelu data/Rhyddid Gwybodaeth. Un o'r uwch-swyddogion oedd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth dynodedig, ac fe allai'r Cyngor gael mynediad at wasanaeth cefnogi diogelwch gwybodaeth drwy un o'i gytundebau TG. Roedd achos yn 2014 ble datgelwyd manylion banc drwy esgeulustod. Ymddengys yr ymdrinwyd â hyn yn gyflym, ac y dysgwyd gwersi priodol.

3. O ganlyniad i'r achos hwn, cydnabu'r Cyngor fod angen atgyfnerthu'r drefn o reoli diogelwch gwybodaeth a gweithredodd yn briodol. Gwnaeth ragor o waith codi ymwybyddiaeth gyda staff sy'n paratoi adroddiadau. Byddai'n ymdrin â llywodraethu gwybodaeth wrth roi hyfforddiant cynefino ac roedd disgwyl i bob rheolwr gael hyfforddiant diogelu data. Rhoddwyd hyfforddiant diogelu data i aelodau hefyd. Yn ogystal â hyn, roedd y Cyngor yn datblygu cyfres o ganllawiau diwygiedig ar gyfer awduron adroddiadau pwyllgor, oedd yn amlinellu disgwyliadau a chanllawiau ynglŷn â diwyg a chynnwys adroddiadau. Dangosodd hyn ymrwymiad i adolygu a gwella trefniadau.

4. Ym mis Mai 2017, cynhaliasom adolygiad dilynnol er mwyn asesu'r cynnydd roedd y Cyngor wedi ei wneud go ran ei drefniadau rheoli gwybodaeth. Daethom i'r casgliad **fod gan y Cyngor drefniadau rheoli gwybodaeth a allai gefnogi gwelliannau, ond mae angen cryfhau'r rhain cyn y gellir gwireddu eu manteision yn llawn.** Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:
   - mae gan y Cyngor strategaethau, polisïau a gweithdrefnau rheoli gwybodaeth. Fodd bynnag, mae rhai nad ydynt yn gyfoes a'u cynnwys yn ddryslyd;
   - mae'r Cyngor yn dangos ymrwymiad i reoli gwybodaeth ac mae wedi ailgyfansoddi'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn ddiweddar. Serch hyn, nid yw ei arweinyddiaeth na'i gylch gorchwyl yn cyfateb i'r arferion gorau; a
   - mae asedau gwybodaeth y Cyngor, gan fwyaf, ar gael yn rhwydd ac mewn ffyrdd priodol i'r cyhoedd, aelodau a staff. Serch hyn, mae'r methiant parhaus i fodloni safonau Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus yn berygl mawr i ddiogelwch gwybodaeth ac i weithgarwch busnes fel ei gilydd.

# Cynnigion ar gyfer gwelliannau

## Model 1: cynigion ar gyfer gwelliannau

Mae'r model hwn yn dangos ein cynigion ar gyfer gwelliannau.

| Cynigion ar gyfer gwelliannau |
| --- |
| **Strategaeth wybodaeth** |
| 1 Dylai'r Cyngor gwblhau a chytuno ar ei Strategaeth Rheoli Gwybodaeth ddiwygiedig. Dylai'r strategaeth gynnwys:<br>• braslun o sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati'n gyffredinol, gan bwysleisio sut y caiff gwybodaeth ei defnyddio i gefnogi amcanion strategol y Cyngor; ac<br>• amserlen o ran yr adolygiad blynyddol ac unrhyw ddiweddaru sydd ei angen fel bod modd ymateb i ddatblygiadau mewn amser cymharol fyr. |
| **Polisi** |
| 2 Dylai'r Cyngor adolygu, cadarnhau a rhesymoli ei ddogfennau polisi rheoli gwybodaeth, gan sicrhau bod:<br>• ei ganllawiau a'i benderfyniadau polisi yn cyfateb yn eglur i'r strategaeth gyffredinol; ac<br>• bod ei ddogfennau yn cydymffurfio â diwyg safonol, a bod trefn ar waith ble cânt eu hadolygu'n rheolaidd. |
| **Swyddogaeth a Statws yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth** |
| 3 Dylai'r Cyngor sicrhau ei hun bod swyddogaeth yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn un â digon o statws, awdurdod ac atebolrwydd, gyda'r awdurdod i herio penderfyniadau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. |
| **Y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth** |
| 4 Dylai'r Cyngor adolygu Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth i gynnwys yn benodol y dasg o graffu'n gyffredinol ar bob agwedd sy'n effeithio ar y man lle cedwir data a gwybodaeth. |
| **Achrediad Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus** |
| 5 Dylai'r Cyngor geisio cael achrediad Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus ar fyrder yn y flwyddyn ariannol sydd ohoni, gan ddefnyddio adnoddau allanol i gyflawni hyn os oes angen. |

# Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli gwybodaeth a allai gefnogi gwelliannau, ond mae angen cryfhau'r rhain cyn y gellir gwireddu eu manteision yn llawn

## Mae gan y Cyngor strategaethau polisïau a gweithdrefnau rheoli gwybodaeth. Fodd bynnag, mae rhai nad ydynt yn gyfoes a'u cynnwys yn ddryslyd.

5 Mae strategaeth iCounty ddigidol y Cyngor (iCounty), a ddatblygwyd ganddo yn 2014 er mwyn ffurfioli ac arwain y broses o drawsffurfio gwasanaethau, yn uchelgeisiol yn ei gwmpas a'i ddyheadau. Fodd bynnag, nid oedd yn nodi'n eglur sut y byddai'r strategaeth yn helpu'r Cyngor i drawsffurfio'i weithgarwch busnes drwy reoli gwybodaeth. Adolygodd y Cyngor ei Strategaeth Ddigidol iCounty yn 2016, ac mae bellach yn ymwneud â'r cyfnod 2016-19. Ym mis Mawrth 2015, diweddarodd y Cyngor ei Strategaeth Wybodaeth, a gynhyrchwyd yn wreiddiol yn 2009. Mae a wnelo'r Strategaeth Wybodaeth â phob gwybodaeth a gedwir yn electronig ac ar bapur ac, er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Strategaeth Ddigidol iCounty, mae'n datgan mai ei fwriad yw: 'i hyrwyddo rheolaeth effeithiol o wybodaeth fel adnodd corfforaethol, gan arwain at wasanaethau gwell i ddinasyddion'.

6 Byddai Strategaeth Wybodaeth, gyda chefnogaeth cynlluniau gweithredu, fel arfer yn disgrifio sut y bydd Cyngor yn cyflawni ei nodau a'i amcanion rheoli gwybodaeth. Mae polisïau gwybodaeth fel arfer yn diffinio'r ffiniau neu'r rheolau y mae cyngor yn disgwyl i aelodau a swyddogion gadw atynt wrth reoli gwybodaeth, boed yr wybodaeth honno ar bapur neu yn ddigidol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd Polisi Rheoli Gwybodaeth Cyngor Sir Fynwy (2016-19) yn disgrifio rhai pethau penodol y bydd y Cyngor yn ei wneud i wella rheoli gwybodaeth, ond nid oedd y rhain yn Strategaeth Wybodaeth y Cyngor. Er enghraifft, roedd y Strategaeth Wybodaeth yn cyfeirio at ddefnyddio systemau rheoli cofnodion data electronig, ond nid oedd yn egluro a yw'r Cyngor yn bwriadu bod yn llai dibynol ar systemau gwaddol ac, os felly, sut y gall gyflawni hynny ac erbyn pryd, fel y gall fesur cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth.

7 Roedd angen adolygu Strategaeth Wybodaeth y Cyngor ym mis Mawrth 2017 ond, ar adeg ein hadolygiad ym mis Mai y flwyddyn honno, nid oedd hynny wedi ei gwblhau. Nid oedd fersiwn 2015 o'r strategaeth yn addas i bwrpas bellach oherwydd bu newidiadau lu yn y maes rheoli gwybodaeth yn y blynyddoedd ers hynny. Roedd perygl y byddai gohirio diweddaru'r Strategaeth Wybodaeth ymhellach yn llestair i'r Cyngor gyflawni ei amcanion corfforaethol. Er enghraifft, byddai diffyg nodau ac amcanion diwygiedig yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor

gyfeirio adnoddau'n effeithiol a mesur gwelliannau ym maes rheoli gwybodaeth. Rydym ni'n deall, ers inni ymweld â'r Cyngor, bod y Strategaeth Wybodaeth wedi ei diweddaru bellach gan gyfuno strategaethau blaenorol a chan gydymffurfio â themâu'r cynllun gwella gwasanaethau. Craffwyd ar y cynllun, cytunwyd arno a'i fabwysiadu (ym mis Hydref 2017) er nad ydym ni wedi ei adolygu eto.

8 Ategir Strategaeth Wybodaeth y Cyngor gan ei Brosiect Gweithio Ystwyth. Roedd y prosiect yn wreiddiol yn ymateb i faterion ynglŷn â'r galw am batrymau gweithio newydd ac am gofleidio arferion o'r fath, ond byddai hefyd yn effeithio ar sut mae angen gwybodaeth ar staff, a sut maen nhw'n cyrchu ac yn defnyddio'r wybodaeth honno. Bu'r prosiect yn gyfrwng i drawsnewid y Cyngor, gan ddod â materion digidol i'r amlwg, a sbarduno'r galw am drawsnewidiad busnes ar bob haen, gyda nifer o staff yn elwa o'r ffaith ei bod hi'n haws cael mynediad i ddata a systemau TG.

9 Yn dilyn y Prosiect Gweithio Ystwyth, mae Rhaglen Swyddfa Ddigidol y Cyngor yn cynnal adolygiad digidol. Bwriad y Cyngor yw i'r adolygiad hwn osod safon ar gyfer y defnydd presennol o dechnoleg gwybodaeth wrth reoli gwybodaeth er mwyn bod o gymorth i osod sylfaen ar gyfer nifer o strategaethau'r Cyngor ac i osod nodau y mae modd mesur cynnydd yn eu herbyn.

10 Mae'r Cyngor yn rhan o bartneriaeth strategol ar gyfer defnyddio technoleg gwybodaeth gyda'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau[1], sy'n cynnwys rheoli gwybodaeth. Dangosodd ein cyfweliadau bod y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau ar y cyfan yn boblogaidd gyda Staff y Cyngor, gan arwain at rai arbedion o ran arbedion maint a bod arbenigedd ar gael yn rhwyddach pan fo'i angen. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd cytundeb lefel gwasanaeth cyfoes yn bodoli oedd yn diffinio'r trefniadau gweithio rhwng y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau a'r Cyngor. Serch hyn, mae grwpiau defnyddwyr yn rhoi adborth i'r Gwasanaeth ynglŷn â'i wasanaethau.

11 Mae Cynllun Busnes Digidol a Thechnegol gan y Cyngor sy'n ymdrin â chyfnod (2016-2019). Mae'n rhoi manylion y blaenoriaethau y mae angen gweithredu arnynt ar fyrder yn 2016-17. Ar adeg ein hadolygiad dim ond y rhan olaf ynglŷn â pheryglon oedd yn ymdrin â'r cyfnod y tu hwnt i 2016-17, er yr eglurodd staff fod y Cyngor yn adolygu ei Strategaeth Wybodaeth.

[1] Mae'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau yn diffinio'i hun fel cyd-ddarpariaeth dechnoleg yn ne Cymru sy'n darparu gwasanaethau technoleg i'r sector cyhoeddus. Dyma'r sefydliadau sy'n rhan o'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau ar hyn o bryd: Heddlu Gwent, CBS Torfaen, CBS Blaenau Gwent a CBS Sir Fynwy. Ar hyn o bryd mae dwy elfen i ddarpariaeth gwasanaethau y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau:

- Y Ganolfan Rhannu Adnoddau ym Mlaenafon ble mae cyfleuster canolfan ddata a ddefnyddir gan bartneriaid a Sector Cyhoeddus Cymru yn ehangach; ac
- Y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau, sef tîm thechnoleg cyfunol sy'n cynnig gwasanaethau TG i sefydliadau partner.

12 Ar y cyfan, nid oedd elfen ganolog a dealladwy i ddogfennau'r Cyngor ynglŷn â chynlluniau a pholisïau rheoli gwybodaeth, ac roedd diffyg cyswllt rhwng yr agweddau strategol, gweithredol, monitro ac adolygu. Ni chafodd ei gyflwyno ychwaith ar ddiwyg cyson. Er enghraifft, roedd y Polisi Rheoli Gwybodaeth yn ymdrin ag amcanion strategol ar lefel uchel, a fyddai'n fwy priodol mewn strategaeth; roedd amserlenni yn dameidiog (mae Cynllun Busnes y Rhaglen Swyddfa Ddigidol ar gyfer 2016-19 yn ymdrin â chyfnod 2016-17 yn unig); ac roedd rhai dogfennau megis y Strategaeth Wybodaeth ei hun yn dal ar y gweill yn ystod ein hadolygiad. Nid oedd y dogfennau hyn yn cydorwedd nac yn ategu strategaeth gyffredinol y Cyngor o ran rheoli gwybodaeth.

13 Ar adeg ein hadolygiad, ym mis Mai 2017, roedd y Cyngor yn gwneud cynnydd gyda'i gynlluniau i gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac mae wedi adeiladu ar lawer o waith da y mae ei Swyddog Diogelu data wedi ei wneud ym maes diogelu data dros y 4-5 mlynedd diwethaf. Roedd staff y Cyngor y bu inni â nhw yn ystod ein hadolygiad yn ymwybodol o drefniadau'r Cyngor o ran hysbysu am ddigwyddiadau. Mae modd gweld y broses ar fewnrwyd y Cyngor, a adwaenir wrth yr enw 'The HUB'.

14 Mae'r Cyngor yn rhan o Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ac mae sawl protocol unigol ar waith mewn adrannau gwasanaeth o dan yr elfen hon.

## Mae’r Cyngor yn dangos ymrwymiad i reoli gwybodaeth ac mae wedi ailgyfansoddi’r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn ddiweddar. Serch hyn, nid yw ei arweinyddiaeth na’i gylch gorchwyl yn cyfateb i’r arferion gorau.

15 Y Pennaeth Llywodraethu Pobl a Gwybodaeth yw Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth dynodedig y Cyngor. Mae hi’n arfer dda bod yr Uwch-berchennog Risg yn aelod o’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ac yn annibynnol ar y sawl sy’n darparu gwasanaethau TG. Mae hyn yn rhoi statws ac awdurdod digonol i’r Uwch-berchennog Risg i herio penderfyniadau a wneir ar y lefel honno, ac i sicrhau atebolrwydd o ran rheoli gwybodaeth, yn unol â gofynion safonau rhyngwladol megis ISO 27001[2]. Fodd bynnag, yng Nghyngor Sir Fynwy, nid yw’r Uwch-berchennog Risg yn aelod o’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac felly mae angen i’r Cyngor sicrhau ei hun nad yw hyn yn llesteirio’r Uwch-berchennog Risg rhag cyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol.

16 Mae Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth sefydledig gan y Cyngor, a gafodd ei ailsefydlu ym mis Mai 2017 gyda Chylch Gorchwyl newydd. Ymysg yr aelodau mae’r Uwch-berchennog Risg ac uwchaelodau staff perthnasol eraill. Mae’r Cylch Gorchwyl yn disgrifio swyddogaeth y Grŵp Llywodraethu fel un sy’n ymwneud â gweithredu, monitro ac adolygu’r strategaethau a’r polisïau ynglŷn â rheoli gwybodaeth; hyrwyddo arferion gweithio da, a chefnogi’r broses o newid diwylliant er mwyn symud tuag at sefyllfa o ailddylunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata.

17 Byddem yn disgwyl i’r Cyngor gael grŵp sy’n cyflawni swyddogaeth Fforwm Rheoli Gwybodaeth Ddiogelwch, fel y diffinnir yn safon ISO 27001. Mae angen i’r Cyngor fod yn ymwybodol o’r ffactorau sy’n effeithio ar y mannau hynny lle cedwir data a gwybodaeth, a byddai grŵp sy’n cyflawni’r swyddogaeth hon yn bodloni’r angen hwnnw. Drwy gael grŵp o’r fath, a fyddai’n cyflawni’r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol, byddai sicrwydd gan y Cyngor fod trefniadau priodol ar waith i ymateb i bob achos o esgeulustod neu esgeulustod posib o ran diogelwch gwybodaeth drwy weithredu, monitro a gwerthuso’n briodol i liniaru hynny. Byddai’r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth wedyn yn gallu defnyddio’r grŵp i werthuso’r perygl mae’r ased gwybodaeth yn ei olygu i’r sefydliad, a thrwy hynny, i gefnogi cwblhau’r adran ynglŷn ag asedau gwybodaeth yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. Er bod y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth mewn gwirionedd

[2] Safon ryngwladol ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth yw ISO27001. Fe’i cyhoeddir gan y Sefydliad Safoni Rhyngwladol a’r Comisiwn Electrotechnegol Rhyngwladol. Mae’n ganllaw cynhwysfawr o’r arferion gorau ynglŷn â rheoli diogelwch yr wybodaeth sydd ym meddiant sefydliadau, ac mae hefyd yn rhoi arweiniad ynglŷn â chael achrediad swyddogol o hyn.

yn ymdrin â rhai o’r elfennau hyn, nid yw hyn yn eglur yng Nghylch Gorchwyl y Grŵp.

18 Mae gan y Cyngor oddeutu 40-50 o hyrwyddwyr digidol ar ei fyrddau cyfarwyddo. Hyrwyddwyr/Cynrychiolwyr Rheoli oedd y swyddi hyn yn flaenorol, ond maen nhw wedi esblygu i fod yn swyddi hyrwyddwyr digidol gyda chwmpas mwy eang a chynhwysfawr gan ymdrin â rhannu gwybodaeth a rhoi canllawiau i staff, a derbyn adborth ynglŷn â pherfformiad gwasanaethau gwybodaeth a digidol.

19 Mae’r Cyngor wedi ei gwneud hi’n orfodol i’w holl staff gael hyfforddiant cynefino ar faterion yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth, gan gynnwys y staff hynny nad ydynt yn gweithio yn y prif swyddfeydd. Roedd tystiolaeth bod brwdfrydedd newydd ymysg staff ac aelodau am gael hyfforddiant gloywi, gyda 148 cais wedi dod i law erbyn mis Mai 2017.

## Mae asedau gwybodaeth y Cyngor, gan fwyaf, ar gael yn rhwydd ac mewn ffyrdd priodol i'r cyhoedd, aelodau a staff. Serch hyn, mae'r methiant parhaus i fodloni safonau Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus yn berygl mawr i ddiogelwch gwybodaeth ac i weithgarwch busnes fel ei gilydd.

20 Mae gwefan gan y Cyngor a honno ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hi ar ddiwyg eglur ac yn cynnwys dolenni at yr amrywiol wasanaethau a ddarperir. Mae gwybodaeth ar gael yn rhwydd i drigolion a staff Sir Fynwy drwy wefan y Cyngor.

21 Mae'r Cyngor wedi ategu ei wefan gyda gydag ap ffôn symudol, sydd ar gael ar y rhan fwyaf o ffonau symudol. Er nad ydym ni wedi adolygu'r cyfleusterau hyn mewn unrhyw fanylder technegol, ymddengys eu bod yn fodd o gynnig gwybodaeth am y Cyngor a'i wasanaethau i ddinasyddion, a hynny'n rhwydd ac yn gyflym.

22 Mae gan staff ac aelodau'r Cyngor fynediad i fewnrwyd y Cyngor - yr 'HUB', sy'n defnyddio Microsoft SharePoint. Mae hwn yn arbennig o boblogaidd gyda'r staff y bu inni gyfweld â nhw, a ddywedodd ar y cyfan ei fod yn effeithiol ac wedi trawsffurfio pethau, gan ei gwneud hi'n haws gweithio o leoliadau eraill, cydweithio a chyrchu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor beth data nad yw ar gael yn rhwydd drwy'r HUB ac fe gedwir yr wybodaeth hon mewn systemau gwaddol penodol. Mae'r systemau gwaddol yn systemau hŷn ar y cyfan, ac fe'u dyluniwyd yn aml at ddiben penodol iawn, gan gadw'r data mewn man caeedig. Nid ydynt yn gydnaws iawn â meddalwedd modern fel yr honno yr adeiladwyd yr HUB arni.

23 Rhan o waith yr Archwilydd Cyffredinol wrth ddod i farn ariannol ar gyfer 2016-17 oedd adolygu cyfleusterau'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau. Gwnaed hyn yn 2016, a dangosodd yr adolygiad bod cyfres gynhwysfawr o reoliadau diogelwch ac argaeledd ar waith. Daethom i'r casgliad bod nifer o reoliadau cydnerthedd ar gael oedd yn cyfateb i safonau'r diwydiant, ynghyd â threfniadau wrth gefn ac adfer cadarn. Golygai hyn bod tebygolrwydd bychan iawn y byddai cynghorau oedd yn rhan o drefniadau Gwasanaethau Rhannu Adnoddau yn gweld tarfu ar y gwasanaeth neu yn colli data.

24 Mae'r Cyngor wedi hysbysu'r Gwasanaethau Rhannu Adnoddau o'i systemau blaenoriaeth sy'n cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus mwy hanfodol ac a fyddai angen y gefnogaeth fwyaf petai achos o darfu ar y Dechnoleg Gwybodaeth. Byddai angen i'r Gwasanaethau Rhannu Adnoddau ystyried y rhain ochr yn ochr â rhestrau cyffelyb gan bartneriaid eraill y Gwasanaethau Rhannu Adnoddau, fel y gall flaenoriaethu galwadau cystadleuol am ei adnoddau cyfyngedig.

25 Yn fwy hir dymor, mae'r Cynllun Busnes Gwasanaethau Digidol a Thechnegol (2016-19) yn dangos bod Cyngor Sir Fynwy yn bwriadu lleihau nifer y systemau

gwaddol a'u disodli gyda systemau a ddyluniwyd i weithio mewn sefyllfaoedd o rannu gwasanaethau, sydd â'r potensial o leihau'r perygl hwn yn fawr.

26 Yn ystod 2016, ni lwyddodd Cyngor Sir Fynwy i gyflawni achrediad Rwydwaith y Sector Cyhoeddus sy'n hanfodol i ymwneud â gwasanaethau'r llywodraeth megis Hawliadau Budd-dal Tai yr adran Waith a Phensiynau. Nid oedd y Cyngor, ar adeg ein hadolygiad, wedi cyflawni'r achrediad hwn o eiddo Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus, a deallwn mai dyma'r achos o hyd. Heb yr achrediad hwn, ni all y Cyngor ymwneud â gwasanaethau'r Llywodraeth megis yr adran Waith a Phensiynau ac fe allai hyn gael effaith busnes ac ariannol sylweddol gan effeithio o bosib ar ddarpariaeth rhai budd-daliadau megis Tai a Threth y Cyngor. Mae angen i'r Cyngor, felly, geisio cael yr achrediad gan Rwydwaith y Sector Cyhoeddus, gan ddefnyddio adnoddau allanol i gyflawni hyn os oes angen.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru